Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithirn Talhaiarn
# Ysgol Talhaiarn
# Stryd yr Eglwys
# Llanfairtalhaiarn
# LL22 8SD

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Talhaiarn, sydd yn cwrdd mewn caban ar safle Ysgol Gynradd Llanfair Talhaiarn, ger Abergele, yn awdurdod lleol Conwy. Mae’r lleoliad yn agor am bum bore’r wythnos ac mae yno ddau ymarferwr.

Mae cofrestriad y lleoliad yn caniatáu derbyn hyd at 30 o’r plant ar unrhyw adeg benodol, ac mae’r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed.

Mae bron pob un o’r plant o darddiad gwyn Prydeinig a lleiafrif ohonynt sy’n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ar ei swydd ym mis Ionawr 2009.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Chwefror 2017 a gan Estyn ym mis Gorffennaf 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm ysgogol, sy'n gwella dysgu'r plant
- disgwyliadau uchel yr ymarferwyr yn sicrhau her gyson
- defnydd ardderchog o'r Gymraeg gan ymarferwyr
- ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd gyda'i gilydd i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau
- gofal tyner yr ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol dan do ac yn yr awyr agored
- ardaloedd dysgu ac adnoddau yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir i'r gwaith dyddiol a hirdymor ac yn cydweithio'n effeithiol efo'r gydweithwraig i wireddu hyn
- y pwyllgor rheoli yn sicrhau cefnogaeth gyson i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- systemau hunanarfarnu rheolaidd yn arwain at osod targedau pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol gan asiantaethau allanol
- partneriaethau pwrpasol â rhieni, gofalwyr a'r ysgol
- arweinwyr yn gwneud defnydd llwyddiannus o gyllid a grantiau i greu gwelliannau yn y ddarpariaeth ac i gynnal yr adeilad a'r ardal allanol yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Cynllunio sesiynau torfol i gyfateb yn briodol i oedran yr holl blant

A2 Cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon yn flynyddol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol, sy'n targedu anghenion a diddordebau'r plant yn synhwyrol. Maent yn cymell y plant yn llwyddiannus i ddysgu trwy gynllunio a darparu ystod o brofiadau ymarferol. Enghraifft o hyn yw'r cyfleoedd i chwarae rôl yn y siop deithio ac ymchwilio am nodweddion arbennig y gwahanol dymhorau, fel casglu dail a chastanau mewn berfa yn ystod yr hydref. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm maent yn ei ddarparu yn ddiddorol ac yn adlewyrchu ethos y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu gweithgareddau cyffrous a diddorol i'r plant ddatblygu fel dysgwyr annibynnol, tu mewn i'r adeilad ac yn yr ardal allanol, er enghraifft wrth ddewis llyfrau i ddarllen dan ganopi a defnyddio offer y gegin fel offerynnau cerddorol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer y sesiynau torfol bob amser yn cyfateb yn briodol i oedran y plant. O ganlyniad, mae'r plant iau yn amharu'n achlysurol ar ffocws a chanolbwyntio'r plant hŷn.

Mae'r holl ymarferwyr yn trafod cynnydd plant unigol mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd da i'r plant leisio eu syniadau personol i ddatblygu'r gweithgareddau ymhellach. Mae gwrando ar syniadau'r plant yn ychwanegu'n bositif at eu brwdfrydedd dyddiol wrth iddynt ddysgu trwy chwarae, er enghraifft i greu ardal lan y môr yn yr ardal dywod allanol.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau meddwl, llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Enghreifftiau ymarferol o hyn yw'r cyfleoedd i blant wneud siapiau a marciau'n annibynnol ar y llawr tu allan â sialc. Hefyd, maent yn gwrando ac ymateb i gerddoriaeth a chydweithio i wacáu bwcedi â thywod wrth adeiladu cestyll tywod.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn bwrpasol. Maent yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio ystod o offer fel camerâu, chwaraeydd cryno ddisg, gliniadur, llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn effeithiol, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu medrau corfforol y plant. Mae cyfleoedd cyson iddynt ddringo cyfarpar anturus yr ysgol a chwarae'n fywiog ar y buarth ar feiciau a cherbydau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynllunio'n drwyadl i ddatblygu medrau corfforol y plant yn bwrpasol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau ardderchog o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Maent yn herio a holi'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu holi meddylgar a phatrymau iaith cyfoethog yn ysgogi'r plant i ymateb yn frwdfrydig. Mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, trafod taith a llif yr afon leol a phobi cacennau traddodiadol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i'r pentref, y swyddfa bost, y feddygfa a'r parc lleol. Mae ymwelwyr fel ffermwr ag ŵyn, plismon, swyddogion y frigâd dân a cherddorion yn addysgu plant yn bwrpasol am rolau pobl yn eu cymuned.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn un o gryfderau'r lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae ymarferwyr yn rhannu'r un disgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol a diogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd. Maent yn herio'r plant yn gyson trwy dasgau ffocws a pharhaus ac mae'r defnydd o'r Gymraeg yn ardderchog. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant y plant yn uchel a'u hawydd i wella'u gwaith yn frwd. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i adeiladu tŵr allan o flociau a brics a pharatoi doliau i fynd am dro mewn pram.

Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Enghreifftiau da o hyn yw'r cyfleoedd i blant arbrofi â llinyn, a'i wehyddu trwy dyllau yn riliau cotwm, ac wrth iddynt greu cwch allan o ddeunyddiau jync.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol ac mae'r asesiadau cychwynnol yn cyfateb yn gywir i ddeilliannau Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith ac yn gosod targedau iddynt. Defnyddir asesiadau yn seiliedig ar y grwpiau ffocws yn gyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Mae'r ddeialog ddyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr yn atgyfnerthu hyn. Ar ddiwedd amser y plant yn y lleoliad, mae llyfryn llawn gwybodaeth, sy'n adlewyrchu'n glir y cynnydd ym medrau'r plant, yn cael ei roi i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau torfol, fel amser byrbryd ac amser stori, i feithrin y gwerthoedd hyn yn dda ar y cyfan. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o'r plant yn ystyried teimladau cyfoedion yn ddeallus, yn ymwneud â'i gilydd yn deg ac yn parchu eraill.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i feddwl, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. O ganlyniad, mae'r plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt olchi dwylo, arllwys diod o jygiau a llinellu'n dawel i glirio'u llestri ar ddiwedd amser byrbryd. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn ystod amser byrbryd.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd ac i gompostio yng ngardd yr ysgol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, ac mae hyn, ar y cyfan, yn dileu unrhyw fath o aflonyddwch a chamymddwyn. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel gyda'r drws wedi cloi. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn briodol pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno. Mae ymarferwyr yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen. Mae ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau cefnogi pan mae'r angen yn codi i dargedu eu hanghenion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau pob dydd a'u hagweddau brwdfrydig. Maent yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd yn flynyddol, darllen storïau moesol am Affrica ac India a chwarae gyda doliau o wahanol ddiwylliannau yn llwyddiannus.

Mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant ac mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol lle mae'r holl blant yn cael cyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae ymarferwyr yn herio a chefnogi plant yn ddyddiol mewn modd cadarnhaol a gofalus.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion plant. Caiff ystod o adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel ymarferol i bob un o'r plant eu cyrraedd. Mae hyn yn galluogi'r plant eu hestyn a'u rhoi yn ôl ac yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn bwrpasol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae'n ddiogel. Mae'r ardal allanol yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd tawel i ddarllen a chwarae rôl. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn greadigol. Defnyddir ffreutur yr ysgol yn synhwyrol ar gyfer cyflwyno gweithgareddau bywiog dan do. Mae'r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau'r ardal leol yn synhwyrol, drwy fynd â'r plant i'r pentref i sylwi ar gyfleusterau lleol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn brofiadol ac yn llywio cyfeiriad pwrpasol i arferion sefydlog y lleoliad. Mae hyn yn hyrwyddo a chynnal gwelliannau yn llwyddiannus. Mae ei weledigaeth graff yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol.

Mae amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n drwyadl ar gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Mae hyn yn bodloni anghenion plant yn rheolaidd ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau'n llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gyda chydweithwraig ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. Llwyddant i gymell y plant i wella'n gyson mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol a thrwy addysgu effeithiol.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â mireinio'r cynllunio i dargedu anghenion unigolion.

Mae'r ymarferwyr yn ffocysu ar gynnig gweithgareddau ysgogol i'r plant. O ganlyniad, maent yn creu newidiadau buddiol i'r ardaloedd dysgu, tu mewn i'r adeilad a thu allan, i herio'r plant i berfformio ar eu gorau. Mae'r arweinydd hefyd yn canolbwyntio'n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn effeithiol i gynnal a gwella eu harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Mae'r pwyllgor ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm ac maent yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, staff yr ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r arweinydd yn cynnal trafodaethau cyson gyda'r rhain i wella profiadau dysgu'r plant ac yn defnyddio holiaduron yn ystyrlon. Mae hyn o fudd i'r lleoliad ac yn sicrhau darlun llawn o'r dysgu, y ddarpariaeth a'r prosesau rheoli.

Mae'r arweinydd a'i chydweithwraig wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant, eu darpariaeth hwy a'u rolau ym mywyd dyddiol a thymor hir y lleoliad. Maent yn defnyddio system bwrpasol i adnabod cryfderau a materion i'w gwella ac yn sicrhau pontio effeithiol rhwng yr hunanarfarniad a'r cynllun datblygu. Maent yn gwneud hyn trwy gynnwys y materion i'w gwella y bu iddynt eu hadnabod trwy'r broses hunanarfarnu a'r adroddiad yn y cynllun datblygu. Mae'r systemau gwella ansawdd yn arwain at newidiadau buddiol sy'n sicrhau cynllunio buddiol a thrwyadl ar gyfer y dyfodol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod i dderbyn syniadau newydd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog Mudiad Meithrin. O ganlyniad, mae'r cyngor ar sut i asesu cyflawniadau unigolion yn ystod tasgau ffocws a'r mewnbwn i'r broses gynllunio yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ddyddiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn cwrdd ar safle Ysgol Llanfair Talhaiarn ac mae cyswllt cadarnhaol iawn â'r ysgol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn ymuno â gweithgareddau a dathliadau'r ysgol fel ymweliad y plismon, cyngherddau Nadolig a'r mabolgampau. Mae athrawes gyswllt yr ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac mae'r plant yn ymweld â'r Cyfnod Sylfaen yn aml. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant yn dda ac mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau'r plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae ymarferwyr yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythyron hanner hanner tymhorol, am bob agwedd o waith y lleoliad. Cânt eu hannog i gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson. Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau cymunedol i godi arian a chefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, ac mae hyn yn meithrin tynerwch a gofal am eraill ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn gweithio a chysylltu

ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth.  Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, asesiadau risg, datblygiadau'r Cyfnod Sylfaen ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad.  Gwneir hyn trwy ddefnyddio ymarferwyr yn ddeallus a dyrannu adnoddau'n bwrpasol.  Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys, sydd wedi cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol.

Mae arferion arwain cadarn yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus.  O ganlyniad, sefydlwyd cymuned ddysgu fywiog sydd â diwylliant o gydweithio effeithlon rhwng ymarferwyr a phartneriaid y lleoliad.

Mae'r systemau rheoli perfformiad yn drwyadl ac yn sicrhau profiadau dysgu pwrpasol ac arferion addysgu cryf.  Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn greadigol i gefnogi dysgu.  Mae hyn yn cynnwys newid cynllun yr ystafell a'r ardal allanol yn achlysurol i ysbrydoli'r plant wrth iddynt ymroi i wahanol themâu.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau'n bwrpasol.  Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn effeithiol a chreu gwelliannau cyson trwy drafod a blaenoriaethu cyllid penodol yn bwrpasol.  Enghraifft o hyn yw sicrhau'r cyfarpar TGCh newydd.  Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau plant.  Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cynnal archwiliad annibynnol o'r cyfrifon yn flynyddol.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |